

Cyngor Tref y Rhyl
Swyddfeydd Dinesig
Canolfan Gymunedol Ffordd Wellington
Ffordd Wellington
Y Rhyl LL18 1LE

Ebost: enquiries@rhyltowncouncil.org.uk

Ffôn: 01745 331114

Polisi Diogelwch Gwybodaeth a Data

Cyflwyniad

Er mwyn ymgymryd â'i fusnes, ei wasanaethau a'i ddyletswyddau, mae Cyngor Tref y Rhyl yn prosesu amrediad eang o ddata, yn ymwneud â'i weithrediadau ei hun a rhai sy'n cael eu hymgydryd ar ran partneriaid. Ym fras, gellir dosbarthu'r data hwn fel a ganlyn:

- Data a rennir yn yr arena cyhoeddus ynglŷn â'r gwasanaethau y mae'n eu cynnig, ei ddull o weithredu a gwybodaeth arall y mae gofyn iddo ei ryddhau i'r cyhoedd.
- Gwybodaeth gyfrinachol a data nad yw eto yn yr arena cyhoeddus megis syniadau neu bolisiau sy'n cael eu hystyried.
- Gwybodaeth gyfrinachol am gyfundrefnau eraill oherwydd sensitifrwydd masnachol.
- Data personol mewn perthynas â'i weithwyr presennol, gweithwyr yn y gorffennol a darpar weithwyr, Cynghorwyr a gwirfoddolwyr.
- Data personol mewn perthynas ag unigolion sy'n cysylltu ag o i gael gwybodaeth, defnyddio ei wasanaethau neu i gwyno.

Bydd Cyngor Tref y Rhyl yn mabwysiadu gweithdrefnau a bydd yn rheoli'n gyfrifol holl ddata y mae'n ei drin a bydd yn parchu cyfrinachedd ei ddata ei hun a data sy'n perthyn i gyfundrefnau partner y mae'n gweithio gyda nhw ac aelodau'r cyhoedd. Mewn rhai achosion, bydd ganddo rwymedigaethau contract o ran data cyfrinachol, ond yn ychwanegol bydd ganddo gyfrifoldebau cyfreithiol o ran gwybodaeth bersonol a sensitif dan ddeddfwriaeth diogelu data.

Mae'r Polisi hwn yn gysylltiedig â'n Polisiau eraill a fydd yn sicrhau bod ystyriaethau gwybodaeth yn ganolog i ethos y gyfundrefn.

Bydd y Cyngor Tref o bryd i'w gilydd yn arolygu a diwygio'r polisi hwn yng ngoleuni profiad, sylwadau gan wrthyrchau data a chyfarwyddyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Bydd y Cyngor mor agored ag y bo modd ynglŷn â'i weithrediadau a bydd yn gweithio'n agos gyda'r cyhoedd, y gymuned a mudiadau gwirfoddol. Felly, yn achos yr holl wybodaeth nad yw'n bersonol neu'n gyfrinachol, bydd yn barod i'w ryddhau i bartneriaid ac aelodau cymunedau'r Dref. Mae manylion gwybodaeth sydd ar gael yn arferol wedi eu cynnwys yng Nghynllun Cyhoeddi'r Cyngor, sy'n seiliedig ar y cynllun cyhoeddi enghreifftiol statudol ar gyfer cynghorau lleol.

Diogelu Gwybodaeth Gyfrinachol neu Wybodaeth Categori Arbennig

Mae Cyngor Tref y Rhyl yn cydnabod bod yn rhaid iddo, ar adegau, gadw a phrosesu gwybodaeth sensitif a chyfrinachol am ei weithwyr a'r cyhoedd. Mae felly wedi mabwysiadu'r polisi hwn nid yn unig i gyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol ond hefyd i sicrhau safonau uchel.

Bydd y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a ddaeth yn gyfraith ar 25ain Mai 2018, fel y Ddeddf Diogelu Data 1998 o'u blaenau, yn ceisio taro cydbwysedd rhwng hawliau unigolion a buddiannau sydd weithiau'n cystadlu gyda'r sawl fel y Cyngor Tref gyda rhesymau dilys dros ddefnyddio gwybodaeth bersonol.

Mae'r polisi yn seiliedig ar y rhagosodiad bod yn rhaid i Ddata Personol:

- Gael ei brosesu yn deg, yn gyfreithiol ac mewn dull agored mewn perthynas i wrthrych y data.
- Gael ei gasglu i ddibenion penodol, amlwg a dilys ac nad yw'n cael ei brosesu ymhellach mewn dull sy'n anghymesur gyda'r dibenion hynny.
- Fod yn ddigonol, yn berthnasol ac wedi ei gyfyngu i'r hyn sy'n angenrheidiol mewn perthynas â'r dibenion ar gyfer y rhain y caiff ei brosesu.
- Fod yn gywir a, lle mae angen, yn cael ei ddiweddarau.
- Gael ei gadw mewn dull sy'n caniatáu adnabod gwrthrychau data am ddim hirach na'r hyn sy'n angenrheidiol i'r dibenion ar gyfer y rhain y caiff y data personol ei brosesu.
- Gael ei brosesu mewn modd sy'n sicrhau diogelwch priodol y data personol gan gynnwys diogelu yn erbyn prosesu di-awdurdod neu anghyfreithlon ac yn erbyn colled, dinistriad neu niwed damweiniol, gan ddefnyddio mesurau technegol neu gyfundrefnol.

Terminoleg Diogelu Data

Gwrthrych data – yn golygu'r person y mae ei ddata personol yn cael ei brosesu.

Gall fod yn weithiwr, darpar weithiwr, cydymaith neu ddarpar gydymaith Cyngor Tref y Rhyl neu rywun sy'n trafod gydag o mewn rhyw ffordd, neu weithiwr, Aelod neu wirfoddolwr gydag un o'n cleientiaid, neu bersonau yn trafod gyda neu'n llunio contract gydag un o'n cleientiaid pan fyddwn yn prosesu data ar eu cyfer.

Data personol – yn golygu unrhyw wybodaeth yn ymwneud â pherson naturiol neu wrthrych data y gellir ei ddefnyddio yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i adnabod y person.

Gall fod yn unrhyw beth o enw, ffotograff, cyfeiriad, dyddiad geni, cyfeiriad ebost, manylion banc a negeseuon ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol neu gyfeiriad IP cyfrifiadur.

Data Categori Arbennig neu Ddata Personol Sensitif – yn cynnwys gwybodaeth am darddiad hiliol neu ethnig, barn wleidyddol a chred grefyddol neu arall, aelodaeth o undeb llafur, gwybodaeth feddygol, cyfeiriadedd rhywiol, data genetig a biometrig neu wybodaeth yn ymwneud â throseddau neu droseddau honedig lle caiff ei ddefnyddio i adnabod unigolyn penodol.

Rheolwr data – yn golygu person sydd (naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd gyda phersonau eraill) (e.e. y Cyngor Tref, cyflogwr, cyngor) sy'n penderfynu ar y dibenion ar gyfer yr hwn y mae unrhyw ddata personol yn cael ei brosesu a sut gwneir hynny.

Prosesydd data – mewn perthynas â data personol, mae'n golygu unrhyw berson (ac eithrio gweithiwr y rheolwr data) sy'n prosesu data ar ran y rheolwr data.

Prosesu gwybodaeth neu ddata – yn golygu cael, cofnodi neu gadw gwybodaeth neu ddata neu ymgymryd ag unrhyw weithred neu set o weithrediadau ar yr wybodaeth neu'r data, gan gynnwys:

- trefnu, addasu neu ei newid
- adfer, ymgynghori ar neu ddefnyddio'r wybodaeth neu ddata
- datgelu'r wybodaeth neu ddata trwy ei drosglwyddo, dosbarthu neu ei ryddhau fel arall
- alinio, cyfuno, dileu neu ddinistrio'r wybodaeth neu ddata, beth bynnag yw'r dechnoleg a ddefnyddir.

Mae Cyngor Tref y Rhyl yn prosesu **data personol** er mwyn:

- cyflawni ei ddyletswyddau fel cyflogwr trwy gydymffurfio gyda thelerau contractau cyflogaeth, amddiffyn y gweithiwr a chadw gwybodaeth fel sy'n ofynnol dan y gyfraith.
- cyflawni buddiannau dilys ei fusnes a'i ddyletswyddau fel corff cyhoeddus, trwy gyflawni telerau contract gyda chfundrefnau eraill, a chadw'r wybodaeth sy'n ofynnol dan y gyfraith.
- monitro ei weithgareddau gan gynnwys cydraddoldeb ac amrywiaeth ei weithgareddau
- cyflawni ei ddyletswyddau o ran gweithredu'r eiddo busnes gan gynnwys diogelwch
- cynorthwyo asiantaethau rheoleiddio a gorfodi'r gyfraith
- prosesu gwybodaeth gan gynnwys cofnodi a diweddarau manylion am ei Gynghorwyr, gweithwyr a gwirfoddolwyr.
- prosesu gwybodaeth gan gynnwys cofnodi a diweddarau manylion am unigolion sy'n cysylltu ag o i gael gwybodaeth, i ddefnyddio gwasanaeth neu i gwyno.
- ymgymryd ag arolygon, cyfrifiadau a holiaduron i gyflawni amcanion a dibenion y Cyngor.
- ymgymryd a gwaith ymchwil, archwilio a gwaith gwella ansawdd i gyflawni ei amcanion a'i ddibenion.
- ymgymryd â gwaith gweinyddol y Cyngor

Lle'n briodol a lle caiff ei lywodraethu gan ragofalon angenrheidiol, byddwn yn ymgymryd â'r gwaith prosesu uchod ar y cyd â chyrff priodol eraill o bryd i'w gilydd.

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod o leiaf un o'r amodau isod yn cael ei ddiwallu ar gyfer gwybodaeth bersonol er mwyn ystyried ei fod wedi ei brosesu'n deg:

- mae'r unigolyn wedi cydsynio â'r prosesu
- mae angen prosesu er mwyn ymgymryd â contract neu gytundeb gyda'r unigolyn
- mae angen prosesu dan rwymedigeth gyfreithiol
- mae angen prosesu i amddiffyn buddiannau hanfodol yr unigolyn
- mae angen prosesu i ymgymryd â swyddogaethau cyhoeddus
- mae angen prosesu er mwyn dilyn buddiannau dilys y rheolwr data neu drydydd parti.

Telir sylw arbennig i brosesu **gwybodaeth bersonol sensitif** a bydd y Cyngor Tref yn sicrhau bod o leiaf un o'r amodau canlynol yn cael eu diwallu:

- caniatâd penodol yr unigolyn
- gofynnol dan y gyfraith i brosesu'r data i ddibenion cyflogaeth
- gofyniad er mwyn amddiffyn buddiannau hanfodol yr unigolyn neu berson arall

Pwy sy'n gyfrifol am ddiogelu data personol person?

Gan y Cyngor Tref fel corff corfforaethol y mae'r cyfrifoldeb yn y pen draw am sicrhau cydymffurfio gyda deddfwriaeth Diogelu Data. Mae'r Cyngor Tref wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb hwn o ddydd i ddydd i Glerc y Dref.

- Ebst: gareth.nickels@rhyltowncouncil.org .uk
- Ffôn: 01745 331114
- Gohebiaeth: Clerc y Dref, Cyngor Tref y Rhyl, Swyddfeydd Dinesig, Canolfan Gymunedol Ffordd Wellington, Ffordd Wellington, y Rhyl LL18 1LE

Monitro Amrywiaeth

Gall Cyngor Tref y Rhyl fonitro amrywiaeth ei weithwyr, a Chynghorwyr, er mwyn sicrhau nad oes gwahaniaethu amhriodol neu anghyfreithlon yn y modd y mae'n ymgymryd â'i weithgareddau. Bydd y data hwn bob amser yn cael ei drin yn gyfrinachol. Gall ymgymryd â thrin data yn debyg mewn perthynas â darpar weithwyr. Bydd ond yn cael ei weld gan unigolion gydag awdurdod o fewn y Cyngor ac ni fydd yn cael ei ddatgelu i unrhyw gyrff neu unigolion eraill. Ni fydd gwybodaeth am amrywiaeth byth yn cael ei ddefnyddio fel meini prawf dethol ac ni fydd ar gael i eraill sy'n cymryd rhan yn y broses recriwtio. Bydd data wedi ei wneud yn ddi-enw i fonitro amrywiaeth yn cael ei ddefnyddio i ddibenion monitro a gellir ei gyhoeddi a'i roi i gyrff eraill.

Bydd y Cyngor bob amser yn rhoi arweiniad ar ddata personél i weithwyr, cynghorwyr, partneriaid a gwirfoddolwyr drwy Hysbysiad Preifatrwydd a sicrhau bod unigolion y cedwir gwybodaeth bersonol amdanynt yn ymwybodol o'u hawliau a bod ganddynt fynediad hawdd at yr wybodaeth honno o wneud cais.

Cymerir mesurau technegol a chyfundrefnol yn erbyn prosesu data personol heb awdurdod neu'n anghyfreithlon ac yn erbyn colled neu ddinistriad damweiniol, neu niwed i, ddata personol. Ni fydd data personol yn cael ei drosglwyddo i wlad neu diriogaeth y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd oni fo'r wlad neu'r diriogaeth yn sicrhau lefel o ddiogelwch ddigonol o ran hawliau a rhyddid gwrthrychau data mewn perthynas â phrosesu data personol.

Gwybodaeth a roddir i ni

Caiff yr wybodaeth a ddarperir (gwybodaeth bersonol megis enw, cyfeiriad, cyfeiriad ebost, rhif ffôn) ei phrosesu a'i storio fel bod modd i ni gysylltu gyda, ymateb i neu ymgymryd â'r trafodion y gofynnir amdanynt gan yr unigolyn. Trwy ddelio gyda Chyngor Tref y Rhyl, tybir bod unigolion yn rhoi caniatâd i'w data personol gael ei ddefnyddio a'i drosglwyddo yn unol â'r polisi hwn, ond lle bynnag y bo modd, gofynnir am ganiatâd ysgrifenedig penodol. Cyfrifoldeb yr uniolion hynny yw sicrhau bod y Cyngor Tref yn gallu cadw eu data personol yn gywir ac wedi ei ddiweddarau. Ni fydd yr wybodaeth bersonol yn cael ei rhannu na'i rhoi i drydydd parti na chael ei defnyddio i unrhyw bwrpas ac eithrio'r rheswm am ei darparu.

Hawl y Cyngor i Brosesu Gwybodaeth

Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (a'r Ddeddf Diogelu Data), Erthygl 6 (1) (a) (b) ac (e)
Prosesir gyda chaniatâd gwrthrych y data neu
Mae angen prosesu er mwyn cydymffurfio gyda rhwymedigaeth gyfreithiol neu
Mae angen prosesu ar gyfer buddiannau dilys y Cyngor.

Diogelwch Gwybodaeth

Mae'r Cyngor Tref yn gofalu ei fod yn sicrhau diogelwch data personol. Rydym yn sicrhau bod eich gwybodaeth yn cael ei hamddiffyn rhag mynediad heb awdurdod, colled, triniaeth, ffugiad, dinistriad neu ddatgeliad heb awdurdod. Gwneir hyn drwy fesurau technegol priodol a pholisïau priodol. Byddwn ond yn cadw eich data i'r diben y casglwyd ar ei gyfer a dim ond cyn hired ag y bo angen, ac wedyn bydd yn cael ei ddileu.

Plant

Ni fyddwn yn prosesu unrhyw ddata yn ymwneud â phelntyn (dan 13 oed) heb ganiatâd penodol rhiant/gwarcheidwad y plentyn dan sylw.

Hawliau Gwrthrych Data

Mynediad at Wybodaeth: Mae gan unigolyn yr hawl i ofyn am gael gweld yr wybodaeth sydd gennym amdanynt. Gallent wneud hyn drwy gysylltu gyda Chlerc y Dref neu'r Swyddog Diogelu Data:

Cywiro Gwybodaeth: Os ydynt yn credu bod yr wybodaeth sydd gennym amdanynt yn anghywir, gallent gysylltu â ni er mwyn i ni ei diweddarau a chadw'r data yn gywir. Cysylltwch â: Chlerc y Dref.

Dileu Gwybodaeth: Os yw'r unigolyn eisïau i'r Cyngor Tref ddileu'r wybodaeth amdanynt, gallent wneud hynny drwy gysylltu gyda Chlerc y Dref.

Hawl i Wrthwynebu: Os yw unigolyn yn credu nad yw eu data'n cael ei brosesu i'r pwrpas y cafodd ei gasglu, gallent wrthwynebu drwy gysylltu gyda Chlerc y Dref neu'r Swyddog Diogelu Data.

Nid yw'r Cyngor Tref yn defnyddio trefniadau cymryd penderfyniadau awtomatig na phroffilio data personol unigolyn.

Cwynion: Os oes gan unigolyn gŵyn o ran sut y mae eu data personol wedi ei brosesu, gallent gwyno i Glerc y Dref, y Swyddog Diogelu Data neu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth casework@ico.org.uk Ffôn: 0303 123 1113.

Bydd y Cyngor bob amser yn rhoi arweiniad ar ddata personol i'w weithwyr yn y Llawlyfr i Weithwyr.

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod unigolion y cedwir data personol amdanynt yn ymwybodol o'u hawliau a bod ganddynt fynediad hawdd i'r wybodaeth honno o wneud cais.

Rhyddhau Gwybodaeth

Mae'r Cynllun Cyhoeddi yn ddull lle gall y Cyngor ryddhau swm arwyddocaol o wybodaeth yn arferol, heb aros i rywun ofyn amdani yn benodol. Bwriad y cynllun yw annog pobl leol i gymryd diddordeb yng ngwaith y Cyngor a'i rôl o fewn y gymuned.

Yn unol â darpariaethau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, mae'r Cynllun hwn yn pennu'r dosbarthiadau o wybodaeth y mae'r Cyngor yn ei chyhoeddi neu'n bwriadu ei chyhoeddi. Gyda hwn mae Canllaw Gwybodaeth a fydd yn rhoi mwy o fanylion o'r hyn y bydd y Cyngor yn ei ryddhau a, gobeithir, yn ei wneud yn haws i bobl weld yr wybodaeth honno.

Mae holl gyfarfodydd ffurfiol y Cyngor a'i bwyllgorau yn destun hysbysiad statudol ar hysbysfyrdau, ar y wefan a chaiff yr wybodaeth ei hanfon at y cyfryngau lleol. Mae'r Cyngor yn cyhoeddi rhaglen flynyddol ym mis Mai bob blwyddyn. Mae'r holl gyfarfodydd ffurfiol yn agored i'r cyhoedd a'r wasg ac mae adroddiadau i'r cyfarfodydd hynny a phapurau cefndir perthnasol ar gael i'r cyhoedd eu gweld. Mae'r Cyngor yn croesawu cyfranogiad y cyhoedd ac mae sesiwn cyfranogiad cyhoeddus ym mhob cyfarfod o'r Cyngor a'r pwyllgorau. Mae manylion i'w gweld yn Rheolau Sefydlog y Cyngor, sydd ar gael ar ei wefan neu yn ei swyddfeydd.

O bryd i'w gilydd, efallai bydd y Cyngor neu ei bwyllgorau angen ystyried materion yn breifat. Enghreifftiau o hyn yw materion yn ymwneud â manylion personol staff, neu aelod penodol o'r cyhoedd, neu lle mae materion o sensitifrwydd masnachol/cytundebol i'w trafod. Bydd hyn ond yn digwydd ar ôl cymryd penderfyniad ffurfiol i wahardd y wasg a'r cyhoedd ac fe nodir y rheswm am y penderfyniad. Mae cofnodion holl gyfarfodydd ffurfiol, gan gynnwys y rhannau cyfrinachol, yn ddogfennau cyhoeddus.

Mae Rheoliadau Agoredrwydd Cyrff Llywodraeth Leol 2014 yn gofyn am wneud cofnodion ysgrifenedig o benderfyniadau penodol a gymerir gan swyddogion dan bwerau dirprwyedig. Nid yw'r rhain yn benderfyniadau arferol cyfundrefnol a gweinyddol megis rhoi cyfarwyddiadau i'r gweithlu neu dalu anfoneb gan y Cyngor, ond byddai'n cynnwys camau gweithredu brys ar ôl ymgynghori gyda'r Cadeirydd, megis ymateb i gais cynllunio cyn cyfarfod y Cyngor. Mewn geiriau eraill, penderfyniadau a fyddai wedi eu cymryd gan y Cyngor neu gan bwyllgor pe na byddai'r ddirprwyaeth wedi bodoli.

Mae Rheoliadau 2014 hefyd yn diwygio Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960 i ganiatáu i'r cyhoedd neu'r wasg ffilmio, tynnu lluniau neu wneud recordiad sain o gyfarfodydd y cyngor a'r pwyllgorau sydd fel arfer yn agored i'r cyhoedd. Bydd y Cyngor, lle'n bosibl, yn hwyluso recordiad o'r fath oni fo'n torri ar draws y cyfarfod. Bydd hefyd yn cymryd camau i sicrhau bod plant, pobl sy'n agored i niwed ac aelodau'r cyhoedd sy'n gwrthwynebu cael eu ffilmio, yn cael eu hamddiffyn heb danseilio pwrpas ehangach y cyfarfod.

Bydd y Cyngor yn falch o wneud trefniadau arbennig o gael cais gan bersonau heb Saesneg fel eu hiaith gyntaf neu bobl gydag anawsterau gweld neu glywed.

Gwybodaeth Ddatgelu

Bydd y Cyngor fel y bo angen yn ymgymryd ag archwiliadau ar staff ac Aelodau gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a bydd yn cydymffurfio gyda'u Cod Ymddygiad mewn perthynas â storio'n ddiogel, trin, defnyddio, cadw a gwaredu Gwybodaeth Datgeliad a Gwahardd. Bydd yn cynnwys gweithdrefn weithredu briodol yn ei system rheoli ansawdd integredig.

Tryloywder Data

Mae'r Cyngor wedi penderfynu gweithredu yn unol â'r Cod o Arferion a Argymhellir ar gyfer Awdurdodau Lleol ar Dryloywder Data (Medi 2011). Mae hwn yn pennu'r egwyddorion allweddol ar gyfer awdurdodau lleol o ran creu mwy o dryloywder trwy gyhoeddi data cyhoeddus a'r bwriad yw eu helpu i fodloni rhwymedigaeth'r fframwaith deddfwriaethol mewn perthynas â gwybodaeth.

Mae "data cyhoeddus" yn golygu'r data gwrthrychol, ffeithiol ar yr hwn y seilir penderfyniadau polisi ac ar yr hwn yr asesir gwasanaethau cyhoeddus, neu'r hyn a gesglir neu a gynhyrchir wrth gyflenwi gwasanaeth cyhoeddus.

Bydd y Cod felly yn gynhaliath i benderfyniadau'r Cyngor ar ryddhau data cyhoeddus ac yn sicrhau ei fod yn rhagweithiol o ran cyrraedd safonau uwch ac ymateb i arferion gorau fel y mae'n datblygu.

Egwyddorion y Cod yw:

Arweinir gan y galw: dylai technolegau newydd a chyhoeddi data gefnogi tryloywder ac atebolrwydd

Agored: bydd darparu data cyhoeddus yn ganolog i ymgysylltiad y Cyngor gyda thrigolion fel ei fod yn gyrru atebolrwydd iddynt.

Amserol: caiff data ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo modd ar ôl ei gynhyrchu.

Bydd Cyngor Tref y Rhyl yn sicrhau bod yr wybodaeth ganlynol yn cael ei chyhoeddi ar ei wefan er mwyn ei gwneud yn hawdd i bobl ei gweld:

- Cyfrifon diwedd y flwyddyn
- Datganiadau Llywodrethu Blynyddol
- Adroddiadau Archwilio Mewnol
- Rhestr o gyfrifoldebau Cyngorwyr neu Aelodau
- Cofnodion drafft y Cyngor a phwyllgorau o fewn mis
- Rhaglenni a phapurau cysylltiedig dim hwyrach na thri diwrnod clir cyn y cyfarfod.

Mabwysiadwyd gan Gyngor Tref y Rhyl Gorffennaf 2019